



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 594 (Cy.87)

DATGANOLI, CYMRU

LLWON

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg
Llwon a Chadarnhadau (Deddf
Llywodraeth Cymru 2006)
(Diwygio) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (O.S. 2007/2044 (Cy. 169)), sy'n rhagnodi ffurfiâu Cymraeg y llwon y mae'n ofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac aelodau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd a'r cadarnhadau y mae'n ofynnol iddynt eu rhoi o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ("Deddf 2006").

Mae'r gorchymyn hwn yn rhagnodi ffurf Gymraeg ddiwygiedig y cadarnhad teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei roi o dan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

Mae Deddf 2006 yn darparu mai'r ffurfiâu a nodir yn Neddf Llwon Addewidiol 1868 (p.72) ac yn Neddf Llwon 1978 (p.19) yw ffurfiâu Saesneg y llwon a'r cadarnhadau y mae'n ofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac aelodau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd a'u rhoi.

Yn rhinwedd adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p.38) ("Deddf 1993"), pan fo un o Ddeddfau Senedd y DU yn pennu ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio at ddibenion swyddogol neu gyhoeddus penodol, caiff y Gweinidog priodol o blith Gweinidogion y Goron wneud gorchymyn sy'n

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 594 (W.87)

DEVOLUTION, WALES

OATHS

WELSH LANGUAGE

The Welsh Forms of Oaths and
Affirmations (Government of
Wales Act 2006) (Amendment)
Order 2011

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This order amends the Welsh Forms of Oaths and Affirmations (Government of Wales Act 2006) Order 2007 (S.I. 2007/2044 (W.169)), which prescribes Welsh forms of the oaths and affirmations which members of the National Assembly for Wales and certain members of the Welsh Assembly Government are required to take under the Government of Wales Act 2006 (c.32) ("the 2006 Act").

This order prescribes an amended Welsh form of the affirmation of allegiance which may be made by a member of the National Assembly for Wales under section 23(1) of the 2006 Act.

The 2006 Act provides that the English forms of the oaths and affirmations which members of the National Assembly for Wales and certain members of the Welsh Assembly Government are required to take are those which are set out in the Promissory Oaths Act 1868 (c. 72) and the Oaths Act 1978 (c.19).

By virtue of section 26(2) of the Welsh Language Act 1993 (c.38) ("the 1993 Act"), where an Act of Parliament specifies a form of words which is to be used for certain official or public purposes, the appropriate Minister of the Crown may make an order which prescribes a form of words in Welsh to be used

rhagnodi ffurf ar eiriau yn Gymraeg sydd i'w defnyddio mewn amgylchiadau a bennir yn y gorchymyn.

Rhodddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1 bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) i wneud gorchymynion o dan adran 26(2) o Ddeddf 1993. Trosglwyddwyd y pŵer wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf 2006.

in circumstances which are specified in the order.

The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2, Schedule 1 gave the National Assembly for Wales as constituted by the Government of Wales Act 1998 (c. 38), power to make orders under section 26(2) of the 1993 Act. The power was subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30(1) of Schedule 11 to the 2006 Act.

2011 Rhif 594 (Cy.87)

2011 No. 594 (W.87)

DATGANOLI, CYMRU

DEVOLUTION, WALES

LLWON

OATHS

YR IAITH GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg
Llwon a Chadarnhadau (Deddf
Llywodraeth Cymru 2006)
(Diwygio) 2011

The Welsh Forms of Oaths and
Affirmations (Government of
Wales Act 2006) (Amendment)
Order 2011

Gwnaed 1 Mawrth 2011

Made 1 March 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 3 Mawrth 2011

*Laid before the National
Assembly for Wales* 3 March 2011

Yn dod i rym 30 Mawrth 2011

Coming into force 30 March 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(2).

The Welsh Ministers make the following order in exercise of the power conferred by section 26(2) of the Welsh Language Act 1993(1) and now exercisable by them (2).

Enwi, dehongli a chychwyn

Title, interpretation and commencement

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011.

1.—(1) The title of this order is the Welsh Forms of Oaths and Affirmations (Government of Wales Act 2006) (Amendment) Order 2011.

(2) Yn y gorchymyn hwn ystyr "y gorchymyn" ("*the order*") yw Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (3).

(2) In this order "the order" ("*y gorchymyn*") means the Welsh Forms of Oaths and Affirmations (Government of Wales Act 2006) Order 2007(3).

(3) Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2011.

(3) This order comes into force on 30 March 2011.

(1) 1993 p.38.

(1) 1993 c.38.

(2) Cafwyd cyfarwyddyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(b), Atodlen 1, fod y pŵer yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'w arfer, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) yn gydredol ag unrhyw un o Weinidogion y Goron yr oedd y pŵer yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd y pŵer oddi wrth y Cynulliad hwnnw i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi.

(2) The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2(b), Schedule 1, directed that the power in section 26(2) of the Welsh Language Act 1993 be exercisable, in relation to Wales, by the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) concurrently with any Minister of the Crown by whom the power was exercisable. The power was transferred from that Assembly to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) O.S. 2007/2044 (Cy. 169).

(3) S.I. 2007/2044 (W. 169).

**Ffurf Gymraeg ddiwygiedig cadarnhad
teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad
Cenedlaethol Cymru ei roi**

2. Yn erthygl 6(2) o'r gorchymyn, yn lle'r ffurf
Gymraeg rhodder—

"Yr wyf i,, yn datgan ac yn
cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn
ddidwyll, y byddaf yn ffyddlon ac yn wir
deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth
yr Ail, ei hetifeddion a'i hollynwyr, yn unol â'r
gyfraith."

**Amended Welsh form of affirmation of allegiance
which may be made by a member of the National
Assembly for Wales**

2. In article 6(2) of the order, for the Welsh form
substitute—

"Yr wyf i,, yn datgan ac yn
cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn
ddidwyll, y byddaf yn ffyddlon ac yn wir
deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth
yr Ail, ei hetifeddion a'i hollynwyr, yn unol â'r
gyfraith."

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, un o
Weinidogion Cymru

Minister for Business and Budget, one of the Welsh
Ministers

1 Mawrth 2011

1 March 2011

©© Hawlfraint y Goron 2011

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.